**Y Pwyllgor Diwylliant CC-5-01(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Mercher 14 Mawrth 2001 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Jonathan Morgan (Ceidwadwr, Canol De Cymru) – eitem 1 yn unig

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth) – eitem 1 yn unig

Elin Jones (Plaid Cymru, Ceredigion – yn dirprwyo dros Gareth Jones (Plaid Cymru, Conwy)) – eitem 1 yn unig

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Gerry Hallett (Cyfadran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg – eitem 1)

Michael Parkinson (Cyfadran Diwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg - eitem 3)

**Datganiadau o Fudd**: Dim

## Eitem 1: Cyflwyniad gan Gyngor Chwaraeon Cymru (Y Cyngor)

**Papur: CC-5-01(p.1)**

Cynrychiolwyr Cyngor Chwaraeon Cymru

Huw Jones, Prif Weithredwr

Gareth Davies, Cadeirydd

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Cyngor Chwaraeon am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar fyr rybudd. Gwnaeth Cadeirydd y Cyngor rai sylwadau rhagarweiniol cyn trosglwyddo i’r Prif Weithredwr. Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol yn y cyflwyniad:

- Nid yw’r Cyngor Chwaraeon yn ystyried chwaraeon yn ynysig, ond fel rhan o’r agenda Gwell Cymru ehangach sy’n cynnwys iechyd, addysg (gorfforol), cynhwysiant cymdeithasol, cydraddoldeb a rhagoriaeth.
- O ran cyfleusterau chwaraeon, bu gwelliannau mawr mewn blynyddoedd diweddar. Ym 1972 roedd gan Gymru 11 o neuaddau chwaraeon, 25 pwll nofio, 104 cwrs golff ac 86 cwrt sboncen. Erbyn 2001 roedd y darlun wedi newid ac roedd 191 o neuaddau chwaraeon, 143 o byllau nofio, 182 cwrs golff, 404 cwrt sboncen, 15 trac athletau, 9 o ganolfannau tennis unigol, 83 maes chwarae ffug, 27 maes bowlio dan-do a 2 lawr sglefrio iâ.
- Mae’r ganran o’r boblogaeth sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon wedi codi o 36% ym 1980 i 63% ym 1996 (er bod y ffigur olaf hwn yn disgyn i 39% oni chynhwysir snwcer, dartiau a cherdded).
- Mae gwahaniaeth enfawr mewn cyfranogaeth mewn chwaraeon rhwng gwahanol ranbarthau (y Gogledd Gwledig sydd â’r gyfranogaeth uchaf â 69.3%, a’r Cymoedd sydd â’r isaf, sef 44.5%). Mae’r gwahaniaethau yn ymestyn i awdurdodau lleol, ac yn amrywio o 78.4% yng Ngheredigion i 34.5% yng Nghaerffili. I ryw raddau mae cydberthynas hefyd rhwng lefelau cyfranogi mewn chwaraeon a chyfraddau marwolaeth mewn ardaloedd awdurdod lleol.
- Mae agenda cynhwysiant cymdeithasol y Cyngor Chwaraeon yn anelu at newid agweddau a rhagfarnau sydd wedi bodoli ers degawdau ac mae’n seiliedig ar egwyddorion chwaraeon i bawb a datblygiad cymunedol. Mae 30 o brosiectau cynhwysiant cymdeithasol ar y gweill ar hyn o bryd: yr her i’r Cyngor Chwaraeon yw cael

yr awdurdodau lleol i gyfrannu mwy.

- Mae'r Cyngor Chwaraeon yn mynd ati'n egnïol i gael merched i gymryd rhan mewn chwaraeon ac mae'n gwneud hynny a all i unioni'r cydbwysedd rhwng cyfranogaeth dynion a merched.
- O ran chwaraeon i'r anabl, mae'r Cyngor yn anelu at gael mwy o gyfranogaeth a nifer fwy o glybiau yn aelodau. Penodir 22 o gydlynwyr anabledd erbyn mis Gorffennaf.
- O ran cyfranogaeth plant, bu gostyngiad yng nghyfanswm yr amser cwricwlwm a neilltuir i addysg gorfforol mewn ysgolion uwchradd o 694 awr ym 1974 i 512 ym 1991-2. Mae ESTYN wedi mynegi pryder yngl•n ag ansawdd cyflwyno addysg gorfforol mewn ysgolion. Er hynny, mae gweithgarwch allgyrsiol wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar, yn arbennig mewn gweithgareddau cystadleuol.
- Bu twf sylweddol mewn aelodaeth o glybiau chwaraeon rhwng 1995 a 1997, er bod aelodaeth o glybiau pêl-droed a rygbi yn tra-arglwyddiaethu ymhlith bechgyn.
- Y prif ddylanwadau ar gyfranogaeth merched mewn chwaraeon yw'r teulu, yr ysgol – yn arbennig y profiad o addysg gorfforol – chwaraeon cymunedol a'r cyfryngau. Mae'r cyfryngau yn dal i roi blaenoriaeth isel i sylw i chwaraeon merched.
- Mae'r Cynllun Cist Gymuned wedi helpu niferoedd mawr o gyfranogwyr iau newydd a thimau iau newydd.
- Gwnaed y pwynt gan Mr Jones fod rhieni yn y DU yn tueddu i drin gweithgareddau chwaraeon eu plant fel cyfle i gael sesiynau meithrin eraill. Yn wahanol, dyweder, i Seland Newydd, anaml y mae rhieni ym Mhrydain yn ymwneud eu hunain â'r gweithgareddau hyn.
- Ymhlith y targedau a osodwyd gan y Cyngor (i gyd erbyn 2005) y mae - 70% o blant 7-11 i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol; 60% o blant 11-16 i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol; 80% o bobl ifanc 15-24 i fod yn chwarae gemau; 350 o ddynion a merched o Gymru i gynrychioli Prydain a 150 o'r rheini ddod yn bencampwyr Prydeinig.
- Mae modd cyrraedd y targedau hyn trwy ddull 'o'r gwaelod i fyny' a fydd yn cynnwys Chwaraeon y Ddraig, Clwb Cymru, Canolfannau Datblygu Lleol a Chanolfannau Rhagoriaeth Rhanbarthol.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb:

- Anodd yw amcangyfrif effaith bresennol argyfwng clwy'r traed a'r genau ar weithgareddau chwaraeon, er bod llawer o ganolfannau awyr-agored wedi cau a bod yr effaith mewn ardaloedd fel Gwynedd ac Ynys Môn yn sylweddol. Mae'r Cyngor yn ystyried anfon canllawiau at glybiau a chanolfannau ynghylch a ddylent gau neu aros yn agored, ond mae arnynt eisiau rhagor o wybodaeth gan y Cynulliad a'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

- Gofynnodd y Cadeirydd a allai'r Cyngor roi cymorth ariannol i glybiau rasio colomennod, mater a drafodwyd yn flaenorol yn y Pwyllgor hwn. Eglurodd Cadeirydd y Cyngor i'r Cyngor Chwaraeon yn ddiweddar gwrdd â chwaraewyr allweddol o'r frawdoliaeth rasio

colomennod. Mae gan y Cyngor gydymdeimlad â gofynion y cymdeithasau rasio colomennod, ond ni all ariannu'r gweithgarwch oherwydd nad yw'n cael ei gydnabod yn un o'r chwaraeon ar lefel y DU. Mae'r gymdeithas rasio colomennod wedi cael ffurflenni cais ac mae croeso iddynt wneud cais am gyllid, ond nid oedd cynrychiolwyr y Cyngor Chwaraeon yn hyderus y byddai'r cais yn llwyddiannus.

- Rhaid i'r Cyngor Chwaraeon fod yn gyson yn y ffordd y mae'n trin chwaraeon. Ar hyn o bryd, nid yw gweithgareddau fel rasio colomennod, rasio milgwn a dartiau yn ateb y meini prawf i gael eu dosbarthu'n chwaraeon. Pe teimlai'r Cynulliad yn ddigon cryf y dylid eu hystyried yn chwaraeon, yna byddai'n rhaid cael hyd i arian iddynt o rywle arall yng nghyllideb y Cyngor.

- Mae cyfran Cymru o'r arian o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn chwech a hanner y cant o gyfanswm y DU o £750m ac fe'i defnyddir i gynorthwyo prosiectau chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig

- Wrth ateb cwestiwn ynghylch sut yr oedd y Cyngor Chwaraeon yn cefnogi golff merched, dywedodd y Prif Weithredwr fod strwythur y gêm yn cynnig llawer cyfle i ferched, gan fod rhestrau aros i ferched yn llawer byrrach na rhai dynion. Ni fydd y Cyngor yn ariannu clwb golff oni all brofi ei fod yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

- Wrth ateb cwestiwn yn gofyn pam nad oedd gan Ogledd Cymru unrhyw byllau nofio mawr, dywedodd y Cyngor y byddai'r pwll nofio cenedlaethol yn agor cyn hir yn Abertawe, ond bod y syniad fod Gogledd Cymru yn brin o ran cyfleusterau chwaraeon cenedlaethol yn gyfeiliornus. Mae'r Gogledd yn gartref i ganolfannau cenedlaethol ar gyfer mynydda, chwaraeon d•r, can•io a hwylio.

- Mae'r Cyngor Chwaraeon yn helpu llawer o glybiau chwaraeon cymunedol trwy'r cynlluniau cist gymuned a grantiau offer bychan, ond mae gwerth am arian a chanolfannau addas yn ystyriaethau pwysig wrth ddyfarnu grantiau.

- Mae cyflwyno addysg gorfforol yn well mewn ysgolion yn fater pwysig sy'n cael sylw ar hyn o bryd gan y Cyngor.

- O ran pêl-droed, nid yw'r Cyngor Chwaraeon yn ariannu Cynghrair Cymru yn uniongyrchol ond mae wedi cynnal trafodaethau â'r Gynghrair yngl•n â datblygiad strwythurol hirdymor pêl-droed. I bêl-droed, o'r holl chwaraeon, y mae'r Cyngor Chwaraeon yn rhoi'r swm mwyaf o gyllid, ond mynegodd y Prif Weithredwr bryder yngl•n ag atebolrwydd cyllid yn y maes hwn.

- Mae cais Cymru am Gwpan Ryder 2009 yn enghraifft ddisglair o sut y gall y genedl gydweithio i gyrraedd un nod. Mae Pwyllgor Cwpan Ryder wedi gohirio cyhoeddi'r cais

buddugol; bydd hyn yn rhoi amser ychwanegol i'r gwahanol garfannau edrych ar ddatblygiad cwrs y Celtic Manor. Mae rhan gref o'r cais yn ymwneud â'r effaith arwyddocaol a gâi'r digwyddiad ar economi Cymru o ran twristiaeth a'r refeniw a gâi ei gynhyrchu.

- Mae'r Cyngor yn ymwybodol o bwysigrwydd pêl fâs i gymunedau yng Nghaerdydd a Chasnewydd ac mae'n ceisio annog y pêl fâs yng Nghymru i gyflwyno cynlluniau datblygu i'r Cyngor.

- Daeth y Gweinidog â'r sesiwn i ben. Cytunodd fod Cwpan Ryder yn enghraifft dda o sut y gall cynigion i gynnal digwyddiadau mawr fod o fudd i Gymru gyfan.

- Mewn perthynas â chyllid i rasio colomennod, dywedodd y Gweinidog mai'r llwybr Cymunedau yn Gyntaf oedd y ffynhonnell gyllid fwyaf tebygol i'r gweithgarwch hwn.

- Yngl•n â chlwy'r traed a'r genau dywedodd fod canllawiau newydd yn debygol o gael eu hanfon i glybiau chwaraeon yn ddiweddarach yn yr wythnos.

- O ran y Gronfa Cyfleoedd Newydd, roedd bron £49m yn cael ei ddyfarnu i chwaraeon yng Nghymru a £3m arall i weithgareddau awyr-agored. Disgwyliai i'r Cyngor Chwaraeon ymwneud yn agos â'r penderfyniadau yngl•n â dyraniadau cyllid.

- Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Cyngor Chwaraeon am gyflwyniad llawn gwybodaeth. Dywedodd fod prinder amser yn rhwystro trafod rhai materion a byddai'n ysgrifennu at y Cyngor yngl•n â'r materion hynny.

**Eitem 2: Cyflwyniad gan Gyngor Amgueddfeydd Cymru (CAC)**

**Papur: CC-5-01(p.1)**

Cynrychiolwyr:

Y Cynghorydd Robert Francis Davies, Cadeirydd

Jane Peirson Jones, Prif Weithredwr

John Marjoram

Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad y mae ei brif bwyntiau i'w cael yn CC-5-01(p.1).

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb:

- Mynegodd y Cadeirydd bryder yngl•n ag anghysondeb cyllido amgueddfeydd lleol gan awdurdodau lleol. Dywedodd y Cynghorydd Robert Francis Davies fod yna enghreifftiau o arferion da a drwg ymhlith awdurdodau lleol, ond bod rhaid i gymorth ariannol yn lleol roi ystyriaeth i bwysau a blaenoriaethau lleol. Teimlai fod amgueddfeydd lleol yn hynod o bwysig i'r cymunedau a wasanaethent ac y dylid annog awdurdodau lleol i gasglu a diogelu deunydd o ddiddordeb hanesyddol. Mae angen i awdurdodau lleol sylweddoli pwysigrwydd a gwerth twristiaeth ddiwylliannol. Mae Glasgow a Hull, er enghraifft, yn enghreifftiau o ddinasoedd a ddaeth yn ganolfannau diwylliannol pwysig yn ddiweddar yn unig ac yn rhannol oherwydd yr ymdrechion a wnaed yn lleol. Daeth hyn â budd mawr i'r economi lleol, yn arbennig i Glasgow.

- Gofynnodd y Cynghorydd Davies i'r Cynulliad roi pwysau ar Amgueddfa Genedlaethol Cymru i deithio mwy â'i harddangosfeydd a datblygu polisi rhanbarthol perthnasol i bob awdurdod lleol. Teimlai nad oedd digon o amlygrwydd yn cael ei roi i allu amgueddfeydd i addysgu pobl ifanc.

- Dywedodd Jane Peirson Jones fod gweithgor ar hyn o bryd yn ystyried a ddylid cael cynllun i gyfateb i RESOURCE yng Nghymru. Ers sefydlu RESOURCE roedd bwlch cyllido wedi datblygu rhwng Cymru a Lloegr, er bod hyn wedi ei unioni'n rhannol gan yr arian ychwanegol a neilltuwyd i CAC yn y setliad cyllideb ar gyfer 2002-3. Ar hyn o bryd hefyd mae diffyg gwybodaeth sylweddol – nid yw'r casglu blynyddol ar ystadegau yn y gwasanaeth amgueddfeydd wedi digwydd am y ddwy flynedd ddiwethaf.

- Roedd CAC wedi derbyn sicrhad gan y Gweinidog blaenorol y byddai RESOURCE yn gweithredu ar sail Cymru a Lloegr ond yn ymarferol nid oedd hynny wedi digwydd. Am faterion rhanbarthol Seisnig yn unig y mae cynllun gwaith cyfredol RESOURCE yn sôn. Ymddengys fod RESOURCE wedi penderfynu'n unochrog ar gylch gwaith y mae a wnelo â Lloegr yn unig. Atebodd y Cadeirydd fod hwn yn fater y byddai angen i'r Pwyllgor ddychwelyd ato'n fuan.

- Cytunai CAC fod angen mwy o gydblethu rhyngddo â Gwasanaeth Addysg yr Amgueddfa Genedlaethol. Bu CAC yn datblygu polisïau addysg am y ddwy flynedd ddiwethaf ac roedd llawer o amgueddfeydd lleol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynlluniau.

- Daeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) yn ddylanwad a oedd yn datblygu dros sut a phryd y sefydlir amgueddfeydd newydd. Pwysleisiodd cynrychiolwyr CAC yr angen am gyswllt clòs rhwng CDL a'r sector diwylliannol.

- Mae holl grantiau CAC yn destun monitro a chloriannu helaeth. Mae 20% o grant CAC

yn mynd tuag at gyllido staff a swyddi yn ei amgueddfeydd cyswllt.

- Cytunodd CAC fod lle iddo ef, AOCC a Llyfrgell Genedlaethol Cymru gydweithio mwy a lle i edrych ar ddyraniadau cyllid cyfredol ac ar y ffyrdd gorau o wario arian.

- Dywedodd cynrychiolwyr CAC fod angen gwella’r cyfleusterau mewn nifer o amgueddfeydd bach i sicrhau’r lefelau priodol o ddiogelwch a rheolaeth amgylcheddol fel y gallai’r amgueddfeydd hyn roi cartref i eitemau o arwyddocâd cenedlaethol a gwerth uchel.

- I gloi, dywedodd y Gweinidog fod nifer o faterion arwyddocaol wedi eu codi. Teimlai fod CAC yn gwneud gwaith arbennig â’r adnoddau prin a oedd ganddo. Ystyriai y byddai Cymru’n Creu yn gyfrwng i sicrhau mwy o gydweithredu rhwng y gwahanol gyrff a oedd â diddordeb mewn gwasanaethau amgueddfeydd, ac i gasglu data diweddar. Yr oedd yn ymwybodol o’r angen i ddatrys y materion yngl•n â RESOURCE yn gyflym, ond teimlai nad sefydlu cynllun cyfatebol oedd yr ateb o anghenraid. Credai hefyd y byddai’n fuddiol i’r Pwyllgor hwn gael cyflwyniad gan swyddogion o’r Comisiwn Archwilio sydd ar hyn o bryd yn ystyried materion gwerth gorau, gan gynnwys y gwasanaeth amgueddfeydd lleol.

**<u>Eitem 3: Yr Iaith Gymraeg – Papur Safbwynt – CC-5-00(p.2)</u>**

Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Cadeirydd. Dywedodd mai papur ffeithiol oedd hwn y gofynnodd y Pwyllgor amdano yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror fel paratoad ar gyfer yr arolwg arfaethedig o’r iaith. Dywedodd wrth yr aelodau ei fod yn cwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yr wythnos ganlynol i gael gwybod sut y gallai’r Pwyllgor hwnnw gyfrannu at yr arolwg hwn.

Roedd y Cadeirydd yn bryderus yngl•n â’r crebachu parhaus ar y cymunedau Cymraeg traddodiadol ac yngl•n â diffyg ystadegau diweddar am y nifer o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn. Holai tybed a oedd y ffigurau hyn ar gael yn lleol ac yr oedd yn dymuno ysgrifennu at Fwrdd yr Iaith Gymraeg yngl•n â’r mater.

Nid oedd Delyth Evans yn cytuno â’r datganiad yn y papur fod yr iaith wedi sefydlogi. Edrychai ymlaen at dderbyn y ffigurau yn y cyfrifiad nesaf ond roedd yn siomedig na fyddai llawer o’r ystadegau allweddol ar gael am tua blwyddyn. Teimlai y byddai’r ystadegau hyn yn allweddol i arolwg y Pwyllgor.

**<u>Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror</u>**

**Papur: CC-4-01(min)**

Derbyniwyd y rhain heb unrhyw newid.

## Materion eraill

Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gofidio am y cyhoeddusrwydd a ddeilliodd o gyfarfod diweddar rhwng aelodau o'r Cabinet, AC ac uwch swyddogion yngl•n â Chanolfan Mileniwm Cymru. Yn arbennig, teimlai fod gwneud sylwadau personol am unigolion a oedd yn ymwneud â'r prosiect yn wrth-gynhyrchiol. Gobeithiai y câi datganiad yn taflu goleuni ar sefyllfa ariannol y Ganolfan ei wneud ddechrau mis Ebrill.

**PWYNTIAU GWEITHREDU**

- Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Cyngor Chwaraeon â chwestiynau pellach
- Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu i'r Pwyllgor drafod RESOURCE
- Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyflwyniad gan y Comisiwn Archwilio am werth gorau, gan gynnwys y gwasanaeth amgueddfeydd lleol
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg am y diffyg ystadegau diweddar am nifer y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg traddodiadol

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2001**